**COETIR MYNYDD**

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 26 Chwefror 2016**

Dechreuodd y cyfarfod, yn y Neuadd Goffa, Mynydd Llandygái, am 8.30pm

1) Ymddiheuriadau a phresenoldeb:
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan: Gwen Griffith, Martin Daws, Jean Williams, Claire a Mike Lynch, Mark Goddard, Helen Berry, John Farrar
Bu 17 o aelodau'n bresennol, yn ogystal â dau ymwelydd

2) Adroddiad blynyddol:
Cafwyd crynhoad o'r adroddiad blynyddol o weithgareddau ers y cyfarfod cyffredinol blynyddol diwethaf gan Tim Radford (TR); yr oedd copïau printiedig ar gael hefyd. Caiff hwn ei gyfieithu hefyd, a'i osod ar dudalen CM ar y We.

Difrod stormydd: yr oedd y tywydd tra gwlyb a gwyntog yn ddiweddar wedi aflonyddu rhywfaint ar y coetir, gan beri i goed syrthio a difrodi wynebau'r llwybrau cyhoeddus a'r bompren dros y nant o Barc yr Ynys. Mae hyn yn amlygu'r angen am arian ar gyfer cynnal a chadw. Bydd angen gwaith atgyweirio.

Bioamrywiaeth: Nodwyd bod pâr o wibedogion brithion wedi dychwelyd. Ni chafodd y rhywogaeth hon ei chofnodi ym Marc yr Ocar ers dros 10 mlynedd. Trefnwyd sawl digwyddiad yn ystod 2015, gan gynnwys taith ar hyd Traeth Lafan, dan arweiniad Gabe Wyn, taith ystlumod yn y coetir a'r pentref, dan arweiniad Sam Dyer, a thaith côr y bore bach, dan arweiniad Chris Allen a Sharon Sweeny.

Beicio heb ganiatâd: credir bod llai o feicwyr yn defnyddio'r llwybrau yn y coetir, ac ni welwyd dim am lwybr Parc yr Ocar ar wefan STRAVA yn ddiweddar. Er hynny, soniodd dau aelod iddynt wrthdaro â beicwyr, a chawsai'r arwydd 'dim beicio' lleiaf ei ddadwreiddio. Gofynnwyd i aelodau i beidio â herio beicwyr, ond i hysbysu'r bwrdd pe gwelid beicwyr yn defnyddio llwybrau yn y coetir.

Mae'r gwaith o dynnu Jac y neidiwr *(Himalayan balsam)* trwy'r pentref a'r coetir wedi parhau, ac yn mynd â llawer llai o amser na phan ddechreuodd, yn 2007.

Llais y Goedwig: Bu Jenny Wong (JW) yn cynrychioli Coetir Mynydd (CM) yng nghynhadledd flynyddol Llais y Goedwig ym mis Mawrth 2015, ac, yn ddiweddar,

yr oedd Bryan Dickinson wedi cyfarfod â Sara Wynne-Pari, Swyddog Meithrin Gallu Coetiroedd newydd Gogledd Cymru, yn Llanrwst.

3) Adroddiad ariannol:

Cyflwynwyd yr uchod gan Mike Yates yn dirprwyo dros Chris Allen. Nodwyd mai taliad olaf y cymhorthdal rheoli pum mlynedd fydd y taliad o £740.46 ar gyfer rheoli coetir sydd i ddod gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015 Nid yw cymorthdaliadau ar gael mwyach ar gyfer rheoli coetir, felly bydd angen dod o hyd i swm o ryw £250 y flwyddyn ar gyfer costau rheolaidd, sef yswiriant, cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau a hurio'r Neuadd Goffa ar gyfer cyfarfodydd. Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd (a weinyddir gan Fantell Gwynedd) wedi caniatáu swm o £9,621 i ariannu ymgynghoriad yn y gymuned ynghylch y cynllun trydan dŵr, a rhaid gwario'r swm hwn cyn mis Tachwedd 2016.

4) Ethol y Bwrdd:

Rhestrodd TR aelodau cyfredol y bwrdd, gan ofyn a oedd unrhyw enwebiadau ar gyfer aelodau newydd. Y mae Chris Allen (nad oedd yn bresennol) wedi datgan ei dymuniad i roi'r gorau i'r swydd o Drysorydd cynorthwyol a soniodd Mike Yates eto ei fod yn dymuno rhoi'r gorau i swydd Trysorydd.

Ni fynegodd unrhyw aelod arall o'r bwrdd ddymuniad i ymddeol, felly fe awgrymodd TR, os nad oedd dim gwrthwynebiad, y dylid cynnal pleidlais i ailethol holl aelodau cyfredol y bwrdd ar gyfer tymor arall.

Cynigiodd Maggie Adam y dylid ail-ethol y bwrdd presennol, gyda Pat Yates yn eilio. Cytunwyd yn unfrydol.

Cadarnhawyd aelodau'r Bwrdd fel:

Cadeirydd - Tim Radford
Is-gadeirydd - Gwen Griffith
Ysgrifennydd - Jenny Wong
Trysorydd - swydd heb ei llenwi
Sharon Sweeny
Bryan Dickinson
Mike Vitkovitch
Gabe Wyn
Martin Daws
Chris Allen

Ni chynigiodd neb weithredu fel Trysorydd. Cytunodd Bryan Dickinson i gynorthwyo Mike Yates i gasglu'r tanysgrifiadau yn y cyfamser, nes llenwi'r swydd.

Y swyddogion *ex officio* yw: Trysorydd Cynorthwyol - Mike Yates a Pheiriannydd yr Argae – Bryn Williams

5) Rheoli Parc yr Ocar:

Rhoddodd JW grynhoad o gynllun rheoli'r coetir: Gan fod yr hen gynllun yn dod i ben, mae angen cynllun newydd, ond yn fwy na thebyg gellir gwneud hyn yn fewnol. Cawsid cymhorthdal tuag at gynlluniau yn y gorffennol, ond nid yw hwn ar gael mwyach - unwaith eto, mae hyn yn amlygu angen incwm rheolaidd ar Goetir Mynydd.

Gall fod angen atgyweirio llwybrau a ddifrodwyd gan y llifogydd diweddar, a bydd angen gofyn cyngor pobl gymwys ynghylch y modd gorau o ymdrin â dŵr gorlif ac ag atgyweirio'r bompren. Awgrymodd Einir Frodsham y gallai hi fynd ar ofyn y Cyngor Cymuned i weld a allai hwnnw roi cymorth ariannol ar gyfer y gwaith hwn.

Bu peth amser ers paratoi adroddiad ffurfiol ar adeiladwaith argae Coed y Parc. Awgrymodd JW y dylid cysylltu â pheiriannydd argaeau cymwys i ymgymryd ag arolwg ac adroddiad ar yr argae. Ni ellir tynnu arian o'r cymhorthdal ar gyfer hyn, gan mai cyfrifoldeb y perchennog yw ymgymryd â'r fath arolygon. Pe bai angen, efallai y gellid talu costau'r arolwg o gronfa ariannol yr argae.

6) Datblygu cynllun trydan dŵr bychan
Rhoddodd TM grynodeb o waith blaenorol CM a wnaed tuag at ddatblygu cynllun trydan dŵr bychan gan ddefnyddio'r Galedffrwd (afon sy'n llifo trwy Barc yr Ocar). Yn ddiweddar bu CM yn edrych ar ddatblygu cynllun yn rhedeg o Bont Amana (Llyn Pen y Bont) i ran isaf Parc yr Ocar, a allai o bosibl gynhyrchu 240 cilowat o drydan. Bu newidiadau'n ddiweddar i'r tariff cyflenwi trydan (FIT) a gallai hynny olygu na fydd y cymhorthdal hwn gan y llywodraeth ar gael erbyn datblygu cynllun yma; er hynny, ni ddylai hyn rwystro'r cynllun rhag talu drosto'i hun.

Eglurodd JW y byddai CM yn parhau i fod yn grŵp coetir a'r amgylchedd yn bennaf, er y byddai'n elwa o fod yn un o berchnogion y tir lle gellid gweithredu unrhyw gynllun. Rhoddwyd yr enw rhagarweiniol 'Ynni Ocar' ar y cynllun trydan dŵr; mae CM wedi derbyn cymhorthdal gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd tuag at gost ymgynghoriad cymunedol ynghylch cynllun trydan dŵr bychan ac wedi sefydlu grŵp annibynnol i ddatblygu'r cynllun.

Soniodd TR yr ystyria datblygwyr trydan dŵr eraill fod y cynllun pen uchel ym Mharc yr Ocar yn gynllun da iawn, o ran bod yn ymarferol ac yn broffidiol; er hynny, byddai angen ymdrin â sawl mater:

a) Byddai rhywfaint o aflonyddu ar y coetir yn y tymor byr ac, o bosibl, yn y tymor hwy o ganlyniad i unrhyw waith peirianegol, a byddai angen mynd i'r afael â'r nodau gwreiddiol o ran amddiffyn y safle yn y coetir. Cawsai dau

wrthwynebiad i unrhyw ddatblygiad trydan dŵr eu derbyn, ar y sail hon yn bennaf.
b) Bydd unrhyw benderfyniad i fynd ymlaen â'r datblygiad trydan dŵr yn fater, yn y pen draw, ar gyfer holl aelodau CM.
c) Bydd angen agor y cynllun i ddatblygu cynllun trydan dŵr bychan ym Mynydd Llandygái i'r pentref i gyd.
d) Hyd yn oed cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i fynd ymlaen, bydd angen sawl arolwg manwl (Archeoleg, Cynefinoedd, Coed, Bryoffytau, Ystlumod a Dyfrgwn) ar gyfer y cais am ganiatâd cynllunio. Er hynny, bydd canlyniadau'r arolygon hyn yn ddefnyddiol i Goetir Mynydd hyd yn oed os na chaiff y cynllun trydan dŵr ei gwblhau.

Gofynnodd Ian Martin a allai twrw o dŷ'r tyrbinau fod yn broblem. Dywedodd TR na wyddai neb hyn ar hyn o bryd, ac y byddai angen atebion i lawer o gwestiynau tebyg ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Soniodd Sian Turner a Gabe Wyn y bu llawer o safle Parc yr Ocar mewn gwirionedd yn safle diwydiannol ar un adeg ac i'r safle ymadfer yn gyflym o'r ymyrraeth a achoswyd wrth ddinistrio'r argaeau eraill a thynnu pibellau haearn bwrw'r cynllun trydan dŵr.

Gofynnodd Jean Scholes ba beryglon a godai o dynnu dŵr o'r afon. Dywedodd Gabe Wyn a JW fod yr afon yn tarddu fel llif digolledu o Lyn Marchlyn Mawr er bod y rhan fwyaf o'r dŵr yn draenio o'r Waen, sy'n gronfa ddŵr helaeth na chaiff ei draenio gan ei bod yn safle gydag amddiffyniad Ewropeaidd. Byddai rheolaeth lem ar faint y dŵr a dynnid o'r afon, a châi ei ddychwelyd i'r afon wrth dŷ'r tyrbinau yn uwch na'r rhaeadr sydd yn uwch na'r Felin Fawr.


Awgrymodd John Sweeny y dylid cynnal pleidlais gan yr holl aelodau a oedd yn bresennol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyn i'r pwyllgor fynd ymlaen ymhellach; cynigiodd y dylid pleidleisio ar y cwestiwn “**A yw Coetir Mynydd o blaid datblygu cynllun trydan dŵr bychan ar dir sy'n eiddo iddo?**” Mynegodd TR yn eglur nad pleidlais oedd hon y dylai unrhyw gynllun trydan dŵr fynd ymlaen yn ddi-os, ond yn mynegi cefnogaeth i barhau i ddatblygu cynllun trydan dŵr.

Pleidleisiwyd fel a ganlyn:
O blaid - 15 (14 trwy ddangos dwylo, gadawodd un aelod yn gynnar, ond gan ddangos y byddai'n pleidleisio o blaid)
Yn erbyn – 2 (cyflwyniadau ysgrifenedig)

Gadawodd cyn y bleidlais: 1

7) Cyd Ynni

Mae'r corff newydd, Cyd Ynni, yn gonsortiwm o chwe grŵp sy'n bwriadu datblygu cynlluniau ynni cymunedol. Mae tri o'r rhain yn Nyffryn Ogwen (CM ar ran Ynni'r Ocar; Ynni Ogwen a Ffarm Moelyci) tra bo'r gweddill yn Abergwyngregyn, Llanberis a Waunfawr. Bydd dau o'r rhain (Ynni Ogwen ac Ynni Padarn Peris) yn lansio eu cynllun cyfranddaliadau ar 28 Chwefror 2016. Mae cynllun peilot, Ynni Lleol (sydd â'i bencadlys yn Rhydychen), hefyd, a fydd yn treialu cynllun i weithredu marchnadoedd ynni lleol a rydd, os byddant yn llwyddiannus, brisiau uwch i'r rhai sy'n cynhyrchu pŵer, a phrisiau is i gwsmeriaid pŵer sy'n agos at ei gilydd.




Yn ogystal â chynhyrchu ynni â dŵr, mae JW wedi awgrymu i Gyd Ynni fod coed tân i'w ddefnyddio yn y tŷ hefyd yn ffynhonnell bwysig o wres adnewyddadwy yn yr ardal. Awgryma trafodaethau cychwynnol ag Arloesi Gwynedd Wledig (LEADER) y gall hwnnw fod yn fodlon i ariannu gwaith ar goed tân. Mae gwaith blaenorol CM a Llais y Goedwig ar goed tân wedi rhoi ffigyrau ar gyfer y galw am goed tân ym Mynydd Llandygái tra bo ymgyngoriadau ym Mynydd Llandygái, Rhiwlas a Thregarth yn mynegi'n dda'r hyn y mae pobl yn rhoi gwerth arno ym Mharc y Bwlch; bwriadwyd yr ymgyngoriadau hyn yn y lle cyntaf fel cyfraniadau i ddatblygu'r cynllun Dylunio Coedwigoedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd yn datblygu "Cynlluniau adnoddau" newydd i gymryd lle'r cynlluniau Dylunio cynt. Cafwyd awgrym y gallai Parc y Bwlch fod yn safle da ar gyfer cynllun peilot ar gyfer y cynlluniau Adnoddau newydd. Gallai hyn fod yn gyfle da i wneud cynnydd o ran sawl agwedd ar waith y blynyddoedd cynt. Bydd JW yn dod ag adroddiad yn ôl ynghylch datblygu'r syniadau hyn.

8) Cynlluniau ar gyfer 2016

Awgrymodd BD y dylid trefnu 'diwrnod tacluso’ gan gynnwys casglu sbwriel a diwrnod gwaith ymarferol ym Mharc yr Ocar - BD i ddilyn hyn ymhellach ac awgrymu dyddiad.

Dywedodd Gabe Wyn ei bod hi a Martin Daws yn bwriadu trefnu rhai gweithgareddau gydag Ysgol Bodfeurig, yn dilyn methiant cynnig ar gyfer prosiect a ymwnâi â'r ysgol. Yr oeddent yn datblygu syniadau ar gyfer rhwydo mewn pyllau, barddoniaeth a chyflwyniad i brosiectau gwyddoniaeth Labordai Awyr Agored (OPAL) (cofnodi bioamrywiaeth). Croeso i unrhyw un a hoffai helpu - y cam nesaf fydd asesiad risg o ran cerdded o'r ysgol i Ynys Uchaf ar gyfer y rhwydo mewn pyllau.

Dywedodd BD fod cynlluniau ar y gweill ar gyfer rhagor o deithiau bioamrywiaeth yn 2016 gan gynnwys taith côr y bore bach eto a theithiau'n ymwneud â mamaliaid bychain neu ystlumod – BD i ddilyn hyn ymhellach.

9) Unrhyw Fater Arall

A) Gofynnodd Lynn Coulsting am archwilio cyson ar y binwydden wyllt fawr farw a grogai dros y terfyn rhwng ei thir hi a Pharc yr Ynys rhag ofn bod angen gwaith adfer i'w wneud yn ddiogel. Dywedodd John Sweeny iddo arolygu'r ddwy goeden farw ger y terfyn â Phen Llyn; awgrymodd dynnu un ohonynt a pharhau i gadw llygad ar y llall. Gofynnwyd i John Sweeny roi gwybod faint o waith sydd ei angen ar goedydd, gan gynnwys coeden Lynn a'r gangen sydd wedi syrthio i gae gerllaw.

B) Cawsid awgrym y dylai Coetir Mynydd ymgeisio am "Wobr Baner Werdd”; rhoddodd TR fanylion am y wobr. Er hyn, yr oedd yn anodd gweld unrhyw fudd mawr o'r wobr oni bai angen cyhoeddusrwydd i gynyddu ymwelwyr â'r goedwig, neu oni byddai'n help i ennill cymorthdaliadau. Awgrymodd TR gynnal pleidlais a ddylid ymgeisio am y wobr. Penderfynwyd yn unfrydol i beidio ag ymgeisio.

C) Gofynnodd Gerry Lynch am bleidlais o ddiolch am holl waith caled y pwyllgor dros y 12 mis diwethaf.

10) Dyddiad y cyfarfod nesaf: Awgrymodd TR ddyddiad tebyg ymhen 12 mis, h.y. dydd Gwener 24 Chwefror 2017

Diolchodd Tim i bawb am ddod i'r cyfarfod, gan ei derfynu am 10.25pm

**http://www.coetirmynydd.co.uk**